

Diweddariad polisi'r UE (EU2011.04):

Cronfeydd Strwythurol yr UE yn y dyfodol 2014-2020

Diweddarwyd: 10 Hydref 2011

Crynodeb o brif bwyntiau'r cynigion

Cyflwyniad

Ar 6 Hydref, cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd ei becyn o gynigion deddfwriaethol ar ddyfodol **Polisi Cydlyniant yr Undeb Ewropeaidd (UE) (neu Cronfeydd Strwythurol yr UE) ar gyfer 2014-2020**¹.

Yn gyffredinol, bydd y ddeddfwriaeth yn pennu **faint o arian, a natur y cymorth, a fydd ar gael i Gymru gan Gronfeydd Strwythurol yr UE ar ôl 2013** (gan ystyried y trafodaethau sy'n cael eu cynnal hefyd ar y fframwaith cyllidebol amlflwydd ar gyfer 2014-2020²).

Bydd y ddeddfwriaeth hefyd yn pennu'r blaenoriaethau cyffredinol ar gyfer rhaglenni yn y dyfodol, y mathau o gynlluniau y gellir rhoi cymorth ariannol iddynt, y gofynion o ran rheoli a gwerthuso rhaglenni, yn ogystal â'r gofynion eraill ar lywodraethau cenedlaethol (ar lefel y DU) o ran derbyn yr arian.

Beth fydd Cymru yn gymwys i'w dderbyn?

Ar sail y testunau drafft, byddai Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn parhau i fod yn gymwys i dderbyn y cymorth dwysaf, gan ei bod yn "Rhanbarth Llai Datblygedig" hy mae'r Cynnyrch Mewnwladol Crynswth

¹ Mae'r manylion llawn, gan gynnwys cyflwyniadau cefndir, ar gael ar **wefan Polisi Rhanbarthol yr UE**

² Cyhoeddwyd ar 30 Mehefin 2011 – y cynigion ar gyfer fframwaith cyllidebol yr UE rhwng 2014 a 2020. Gweler **Diweddariad Polisi'r UE (EU2011.02)** i gael rhagor o wybodaeth gefndir.

(CMC) yn llai na 75% o CMC yr UE ar gyfartaledd, yn seiliedig ar ddata rhanbarthol, sydd ar gael eisoes, ar gyfer "cyfnod cyfeirio" o dair blynedd, sef 2006, 2007 a 2008).

Byddai Dwyrain Cymru hefyd yn gymwys i dderbyn cymorth, gan fod y rhanbarth hwn yn cael ei ystyried yn "Rhanbarth mwy Datblygedig" hy mae CMC y rhanbarth yn fwy na 90% o CMC yr UE ar gyfartaledd.

Y rheoliadau

Un o'r prif newidiadau yw'r cynnig i gynnwys **Rheoliad Darpariaethau Cyffredin**, sy'n gymwys nid yn unig i ddwy Gronfa Strwythurol yr UE ond hefyd i offeryn ariannu Datblygu Gwledig (a gyhoeddwyd ar 12 Hydref fel rhan o'r cynigion i ddiwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin) a'r Gronfa Forol a Physgodfeydd Ewropeaidd (EMFF) newydd. Disgwylir y caiff y cynigion ar gyfer y gronfa hon eu cyhoeddi ar 30 Tachwedd³.

Mae'r newid hwn yn adlewyrchu ymgais ar ran y Comisiwn i fabwysiadu dulliau cyffredin a mwy strategol o ymdrin â phrif offerynnau ariannu'r UE, gan eu cysylltu'n uniongyrchol â pholisi cyffredinol yr UE ar gyfer twf a swyddi, sef Ewrop 2020 (gweler yr adran **Cefndir** isod i gael rhagor o wybodaeth am hyn), a'r cytundeb Twf a Sefydlogrwydd (sy'n gosod ffiniau ar gyfer polisi macroeconomaidd yn Ardal yr Ewro). Mae hyn yn golygu crynhoi adnoddau i nifer gyfyngedig o flaenoriaethau thematig, gan ganolbwyntio ar sicrhau canlyniadau, cyflwyno nifer o amodau'n gysylltiedig ag arian yr UE y bydd yr aelod-wladwriaethu'n eu rheoli ar y cyd, ceisio gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y polisi, a symleiddio'r modd y caiff ei gyflwyno a'i roi ar waith.

Mae'r Comisiwn hefyd wedi cynnig cymryd nifer o gamau penodol i gryfhau dimensiwn trefol y polisi. Rhoddir llai o sylw penodol (y tu hwnt i'r arian ar gyfer Datblygu Gwledig o dan y PAC) i ardaloedd gwledig yn y rheoliadau drafft.

³ Mae hyn yn disodli'r "Rheoliad Cyffredinol" a oedd yn cynnwys dim ond ERDF ac ESF rhwng 2007 a 2013.

Yn ogystal â'r Rheoliad Darpariaethau Cyffredin, dyma'r rheoliadau sydd fwyaf perthnasol i Gymru:

- **Rheoliad Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF)** (21 tudalen)
- **Rheoliad Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF)** (21 tudalen)
- **Rheoliad Cydweithredu Tiriogaethol** (35 tudalen)

Prif elfennau'r cynigion

Mae nifer o elfennau sy'n amlwg o ddiddordeb arbennig i Gymru:

- Mae Polisi Cydlyniant yr UE yn canolbwyntio ar ddau amcan craidd:
 - **Buddsoddi ar gyfer Swyddi a Thwf** (y rhaglenni rhanbarthol)
 - **Cydweithredu Tiriogaethol** (drwy raglenni trawsffiniol; trawsenedlaethol a rhynganbarthol)
- Mae **Buddsoddi ar gyfer Swyddi a Thwf** yn rhannu'r rhanbarthau'n dri chategori:
 - **Rhanbarthau Llai Datblygedig** <75% o CDC yr UE ar gyfartaledd (fel y nodwyd eisoes, bydd **Gorllewin Cymru a'r Cymoedd** yn perthyn i'r categori hwn)
 - **Rhanbarthau Trawsnewidiol** (75%-90% o CMC yr UE ar gyfartaledd) - gyda darpariaethau arbennig ar gyfer rhanbarthau cydgyfeirio presennol sy'n mynd uwchlaw'r trothwy o 75%
 - **Rhanbarthau Mwy Datblygedig** >90% o CMC yr UE ar gyfartaledd (Mae **Dwyrain Cymru** yn perthyn i'r categori hwn)
- **Y cyfnod cyfeirio o dair blynedd** a ddefnyddir i gategoreiddio'r rhanbarthau yw **2006, 2007, 2008** (mae'r data ar gael eisoes)
- Bydd y rhaglenni yn y dyfodol yn canolbwyntio ar **nifer gyfyngedig o flaenoriaethau thematig sy'n cysylltu'n uniongyrchol â'r broses o roi Ewrop 2020 ar waith**: mae cyfanswm o 11 at ei gilydd, 4 ar gyfer ESF (gan gynnwys cynhwysiant

cymdeithasol), a'r gweddill ar gyfer ERDF. Mae'r rhain yn canolbwyntio'n bennaf ar (i) swyddi a thwf yn enwedig cymorth i BBaCh, ymchwil/arloesedd, a (ii) y newid yn yr hinsawdd a chynaliadwyedd. Mae'r rheoliadau'n cynnig dyrannu isafswm i bob categori cyffredinol (gyda mwy o hyblygrwydd yn y "Rhanbarthau Llai Datblygedig")

- Bydd 20% o arian ESF yn cael ei ddefnyddio i fynd i'r **afael â thlodi ac allgáu cymdeithasol**
- Blaenoriaeth i hybu **cynlluniau cymdeithasol arloesol** (a defnyddio cynlluniau teilwrio ariannol) drwy'r ESF
- **Datblygu Trefol Cynaliadwy**: pwyslais cryf ar hybu'r dimensiwn trefol gan nodi tri math penodol o weithredu: (i) yn genedlaethol (aelod-wladwriaeth - hy y DU) o leiaf **5%** o'r Cronfeydd Strwythurol i'w **glustnodi i hybu gweithredu integredig ar gyfer datblygu trefol cynaliadwy**, i'w ddirprwyo i ddinasoedd i'w rheoli drwy'r **Buddsoddiadau Tiriogaethol Integredig**. (ii) **Llwyfan Datblygu Trefol** i'w sefydlu ar lefel yr UE i hyrwyddo gallu - adeiladu/rhwydweithio rhwng dinasoedd, gydag uchafswm o 300 o ddinasoedd (hyd at 20 ym mhob aelod-wladwriaeth) i'w cynnwys mewn rhestr o ddinasoedd i gymryd rhan yn hyn. (iii) **Gweithredu Arloesol** (a reolir ar lefel yr UE) ym maes Datblygu Trefol Cynaliadwy, i'w ariannu drwy ddefnyddio hyd at 0.2% o'r ERDF a ddyrennir bob blwyddyn.
- **Strategaethau Datblygu Lleol**: gall Cronfeydd Strwythurol yr UE gynnwys cynlluniau trefol a gwledig. Bydd Datblygu Gwledig yn parhau i gefnogi LEADER
- **Y Fframwaith Strategol Cyffredin (CSF)** i gael ei baratoi ar lefel yr UE (drafft i'w gyhoeddi gan y Comisiwn fis Ionawr 2012) gan nodi amcanion allweddol yr UE drwy Gronfeydd Strwythurol newydd yr UE
- Pob aelod-wladwriaeth (hy lefel y DU) i baratoi **Cytundeb Partneriaeth**, i gyflawni amcanion y

CSF y cytunwyd arnynt ar lefel yr UE, gan eu cysylltu ag ymrwymadau ehangach pob llywodraeth genedlaethol i roi strategaeth Ewrop 2020 ar waith (i'w gosod allan yn eu Rhaglenni Diwygio Cenedlaethol ac yn yr argymhellion y bydd Cyngor y Gweinidogion yn cytuno arnynt bob blwyddyn). Y Comisiwn i fabwysiadu “**cod ymddygiad**” ar gyfer Cytundebau Partneriaeth

- Cyflwyno **amodau ex-ante** y mae'n rhaid eu bodloni cyn cytuno ar Raglenni Gweithredol - mae'r rhain yn cysylltu ag Ewrop 2020 ac yn cydymffurfio â deddfwriaeth bresennol yr UE (ee targedau i sicrhau arbedion effeithlonrwydd ynni)
- Cyflwyno **amodau macroeconomaidd** (“ffon”): y bygythiad y bydd y Cronfeydd Strwythurol yn cael eu hatal neu eu dileu os yw aelod-wladwriaeth yn methu cyrraedd y targedau macroeconomaidd y cytunwyd arnynt (ee lleihau dyledion cyhoeddus), a hefyd rhoi'r pŵer i'r **Comisiwn newid Cytundebau Partneriaeth aelod-wladwriaethau**
- **Cronfa wrth gefn i wobrwyo llwyddiant:** 5% o'r gyllideb gyfan i'w ddyrannu yn 2019 i wobrwyo'r rhaglenni rhanbarthol mwyaf llwyddiannus. Fel rhan o'r cynllun hwn, mae gan y Comisiwn y pŵer hefyd i argymhell bod aelod-wladwriaethau'n cymryd camau i ddelio â'r rhannau hynny o'u rhaglenni sy'n tanberfformio, gan fygwth atal taliadau dros dro.
- Cynnwys rhestr o “ddangosyddion cyffredin” ar gyfer ERDF (gan gynnwys cydweithredu tiriogaethol) ac ESF
- **Y posibilrwydd i'r aelod-wladwriaethau ailddyrrannu hyd at 2% o'r cyllid rhwng y gwahanol “gategoriâu” o ranbarthau** (ee o'r Rhanbarthau Llai Datblygedig i'r Rhanbarthau Mwy Datblygedig).
- **Adroddiadau Gweithredu Blynyddol (o 2016 ymlaen), cyfarfod blynyddol rhwng yr aelod-wladwriaethau a'r Comisiwn, a chwblhau cyfrifon bob blwyddyn**, gyda gofyniad i gadw dogfennau ategol am gyfnodau treigl o dair

blynedd.

- **Symleiddio'r dewis sydd ar gael o ran costio'r** cynllun a ariennir ee yn achos ESF, cyfradd unffurf o 40% ar gyfer costau staff uniongyrchol cymwys i dalu am weddill costau cymwys prosiect/cynllun

Y broses drafod ym Mrwsel

Mae'r Comisiwn yn rhoi cyfnod o **12 mis** rhwng mabwysiadu'r cynigion deddfwriaethol a chytuno ar Raglenni Gweithredol (gan gynnwys cytuno ar y Fframweithiau Strategol Cyffredin a'r Cytundebau Partneriaeth).

Caiff y cynigion drafft eu mabwysiadu drwy'r “**weithdrefn ddeddfu gyffredin**” (hy cydbenderfynu). Mae angen i Gyngor y Gweinidogion a Senedd Ewrop gytuno ar y cynigion drafft, gyda'r Comisiwn Ewropeaidd yn gweithredu fel brocer. Mae'n bosibl y bydd y broses hon yn cynnwys tri darlleniad, ac mai trafodaeth “gymodi” fydd y darlleniad olaf. O ran amseru, os bydd popeth yn mynd yn ddiraffferth, y dyddiad cynharaf y gellid eu mabwysiadu fyddai haf 2012. **Mae'n fwy tebygol y cânt eu mabwysiadu yn ystod hanner cyntaf 2013.**

Perthnasedd i Gymru

Ar hyn o bryd mae Cymru yn cael oddeutu **£1.9 biliwn** gan Gronfeydd Strwythurol yr UE ar gyfer y cyfnod 2007-2013. Mae'r rhan fwyaf o hyn (£1.7 biliwn) yn mynd i Raglen Gydgyfeirio Gorllewin Cymru a'r Cymoedd sy'n cynnwys dau draean o diriogaeth Cymru a 15 ardal awdurdod lleol yng Nghymru a chymoedd y De a gorllewin a gogledd-orllewin Cymru. Mae tua £110 miliwn yn mynd i raglenni Cystadleurwydd a Chyflogaeth Dwyrain Cymru, sy'n cynnwys gweddill Cymru (Caerdydd, Bro Morgannwg, Sir y Fflint, Powys a Sir Fynwy).

Yn ogystal â hyn, mae Cymru hefyd yn gymwys i dderbyn nifer o raglenni “Cydweithredu Tiriogaethol” sy'n hybu mentrau cydweithredol rhwng cyrff o

wahanol rannau o Ewrop ac sy'n cynnwys amrywiaeth o brosiectau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd⁴, gan gynnwys:

- Rhaglen Drawsffiniol Iwerddon/Cymru
- Rhaglen Drawsgenedlaethol Ardal yr Iwerydd
- Rhaglen Drawsgenedlaethol Gogledd-orllewin Ewrop
- Rhaglen Ryngranbarthol (IVC)

Cefndir y cynnig

Yn ystod y cyfnod rhwng 2008 a hanner cyntaf 2011, aeth y Comisiwn Ewropeaidd drwy gyfnod o baratoi ar gyfer y cynigion deddfwriaethol, a oedd yn cynnwys astudiaethau, adroddiadau ac ymgynghoriadau amrywiol, yn bennaf drwy gyhoeddi'r Pumed Adroddiad Cydlyniant ym mis Hydref 2010⁵.

Ewrop 2020

Mae'r ddadl hon wedi cydreded â'r gwaith o baratoi ar gyfer strategaeth **Ewrop 2020**, sef strategaeth "datblygu economaidd" gyffredinol yr UE, y cytunwyd arni ym mis Mehefin 2010. Nod y strategaeth hon yw sicrhau twf call, cynaliadwy a chynhwysol ledled yr UE dros y ddegawd nesaf.

Mae **Ewrop 2020** yn cael ei rhoi ar waith ar wahanol lefelau:

- **Yr Undeb Ewropeaidd:** drwy gyllideb yr UE a mesurau eraill
- **Yn genedlaethol (a lleol/rhanbarthol):** mae'n rhaid i bob aelod-wladwriaeth gyhoeddi **Rhaglen**

⁴ Ewch i wefan **Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO)** i gael rhagor o fanylion am y gwahanol raglenni.

⁵ Ewch i wefan **Polisi Rhanbarthol** (Y Comisiwn Ewropeaidd)

Ddiwygio Genedlaethol bob blwyddyn yn gosod allan ei blaenoriaethau a'i hamcanion ar gyfer y flwyddyn nesaf o ran cyflawni amcanion cyffredinol Ewrop 2020.

Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi ceisio creu **cysylltiad strategol clir ac uniongyrchol rhwng cynlluniau ariennir gan yr UE a'r gwaith o roi strategaeth Ewrop 2020 ar waith**, a chafodd hyn ei nodi yn y cynigion deddfwriaethol drafft ar gyfer Fframwaith Ariannol Amlflwydd yr UE ar gyfer 2014-2020, a gyhoeddwyd ar 30 Mehefin 2011.

Mae hyn yn effeithio'n uniongyrchol ar ffocws a natur rhaglenni Cronfeydd Strwythurol yr UE mewn nifer o ffyrdd gan gynnwys blaenoriaethau thematig arfaethedig y rhaglenni.

Daeth un agwedd benodol i'r amlwg yn ystod y 18 mis diwethaf sydd â chysylltiad uniongyrchol â hyn, fel rhan o'r nod mwy cyffredinol o sicrhau bod y Cronfeydd Strwythurol yn cael eu defnyddio'n fwy effeithiol ac yn cael mwy o effaith. Yr agwedd hon yw'r "amodau" mwy pendant a gyflwynwyd (defnyddio'r ffon yn hytrach na'r abwyd yn bennaf), ac un o'r rhain yw cysylltu'r hyn y mae aelod-wladwriaethau'n ymrwymo iddynt yn eu **Rhaglenni Diwygio Cenedlaethol** o dan Ewrop 2020, ac fel rhan o'r **Cytundeb Twf a Sefydlogrwydd** ar gyfer ardal yr Ewro, yn uniongyrchol â'r arian a roddir iddynt drwy Gronfeydd Strwythurol yr UE. Os na fydd aelod-wladwriaethau'n cadw at yr ymrwymadau hyn bydd yr arian a ddyrannwyd iddynt o'r Cronfeydd Strwythurol yn cael ei atal neu'i ddileu, gan effeithio'n uniongyrchol ar y rhaglenni rhanbarthol a chenedlaethol yn eu tiriogaeth.

Galwadau i greu Polisi Cydlyniant UE cryf

Yn ystod y cyfnod hwn (2008-2010) bu Senedd Ewrop, a'r Pwyllgor Datblygu Rhanbarthol yn benodol (a Gadeiriwyd gan yr Athro Danuta Hübner, cyn

Gomisiynydd Polisi Rhanbarthol), yn amddiffyn yr angen i greu polisi Cydlyniant UE cryf ar gyfer yr UE cyfan, a mabwysiadwyd nifer o benderfyniadau ar ddyfodol Cronfeydd Strwythurol yr UE⁶. Gwnaed hyn er gwaethaf galwadau o sawl tu (gan gynnwys rhannau o'r Comisiwn Ewropeaidd yn ogystal â rhai aelod-wladwriaethau) iddatblygu polisi datblygu economaidd drwy ganolbwyntio mwy ar sectorau.

Mae'r Senedd a Phwyllgor y Rhanbarthau wedi mynegi amheuan cryf ynglŷn â chyflwyno "amodau" a fyddai'n "cosbi" rhanbarthau oherwydd ffactorau sydd y tu hwnt i'w rheolaeth (ee polisiau macroeconomaidd a bennir gan lywodraethau cenedlaethol) sy'n golygu y bydd hwn yn destun trafod pwysig yn ystod y misoedd nesaf o gofio cynigion y Comisiwn.

Cyfraniad Cymru at y drafodaeth hon

Roedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhan bwysig o'r trafodaethau yn ystod y Trydydd Cynulliad drwy waith y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol a gynhaliodd **ymchwiliad dros gyfnod o ddwy flynedd**, gan gasglu tystiolaeth gan uwch wleidyddion a swyddogion ym Mrwsel (gan gynnwys Danuta Hübner ASE, Janusz Lewandowski Comisiynydd yr UE dros Gyllideb yr UE a phedwar ASE Cymru)⁷.

Cyhoeddodd y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol **ddau adroddiad** (Rhagfyr 2009 a Gorffennaf 2010 – a ddosbarthwyd yn eang ym Mrwsel), o blaid parhau â pholisi ar gyfer yr UE cyfan i'w weithredu yn yr holl ranbarthau (gan gynnwys rhanbarthau "tlotach" yn yr

⁶ Penderfyniad Senedd Ewrop ar y Pumed Adroddiad Cydlyniant (Gorffennaf 2011); Penderfyniad Senedd Ewrop ar y Polisi Cydlyniant ar ôl 2013 (Hydref 2010); Penderfyniad Senedd Ewrop ar y polisi Cydlyniant ac Ewrop 2020

⁷ Ewch i wefan y **Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol**. Cyhoeddwyd dau adroddiad: **Adroddiad Dros Dro**, Rhagfyr 2009 a'r **Ail Adroddiad**, Gorffennaf 2010 ac ymatebodd Llywodraeth Cymru (Prif Weinidog Cymru i'r ddau.

aelod-wladwriaethau "cyfoethog") ac yn cytuno y dylai'r polisi ganolbwyntio mwy ar roi blaenoriaethau Ewrop 2020 ar waith. Rhoddodd Llywodraeth Cymru, a rhanddeiliaid eraill Cymru, dystiolaeth i'r Pwyllgor, a chyflwyno ymatebion ffurfiol i ymgynghoriad y Comisiwn Ewropeaidd a lansiwyd drwy gyhoeddi'r Pumed Adroddiad Cydlyniant⁸.

Roedd yr holl waith hwn yn dangos bod cytundeb cryf ymhlith rhanddeiliaid Cymru a bod cefnogaeth drawsbleidiol yn nhrafodaethau'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol ac ymhlith ASE Cymru, i ddyfodol Cronfeydd Strwythurol yr UE.

Ymchwiliad y Pwyllgor Menter a Busnes

Yn y Pedwerydd Cynulliad, cytunodd y Pwyllgor Menter a Busnes, yn ei gyfarfod ar 6 Hydref, i gynnal ymchwiliad i'r cynigion deddfwriaethol drafft ynghylch dyfodol Cronfeydd Strwythurol⁹ er mwyn i'r Cynulliad fedru cyfrannu at drafodaethau ffurfiol a gaiff eu cynnal dros y 12-18 mis nesaf.

Safbwynt Llywodraeth y DU

Bydd Llywodraeth y DU yn cyhoeddi Memorandwm Esboniadol (ME) yn ystod yr wythnosau nesaf yn esbonio'i hymateb i gynigion y Comisiwn. Bydd yr adran hon yn cael ei diweddar'u'n unol â hynny. Fodd bynnag, mae'r ME yn debygol o ailddatgan safbwynt Llywodraeth y DU a nodwyd yn ei hymateb i'r Pumed Adroddiad Cydlyniant, sydd wedi'i grynhai isod. Cyfeirir hefyd at Femoranda Esboniadol perthnasol eraill Llywodraeth y DU.

Mae ME Llywodraeth y DU ar y Pumed Polisi Cydlyniant yn derbyn bod angen polisi ar gyfer yr UE cyfan tan

⁸ Gwelery **Pumed Adroddiad Cydlyniant ar wefan Polisi Rhanbarthol yr UE**

⁹ Ewch i wefan y **Pwyllgor Menter a Busnes** i weld y papur cwmpasu a'r cylch gorchwyl

2020, a bod angen i'r cymorth mwyaf dwys, sef arian cydgyfeirio, fod ar gael i'r rhanbarthau tlotaf yn yr aelod-wladwriaethau "cyfoethog" (ee Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn y DU). Fodd bynnag, mae Llywodraeth y DU o blaid ailgyfeirio adnoddau ar yr aelod-wladwriaethau tlotaf, a lleihau'r dyraniad cyffredinol i'r Polisi Cydlyniant yn sylweddol¹⁰.

Yn ei ME ar yr Adolygiad o Gyllideb yr UE a'r Fframwaith Ariannol Amflwydd a gyhoeddwyd yn ddiweddar, mae'n galw am ostyngiad sylweddol yng nghynigion y Comisiwn¹¹. Yn ystod yr wythnosau diweddar, llofnododd wyth aelod-wladwriaeth (gan gynnwys Llywodraeth y DU) ddogfen answyddogol yn galw am ostyngiad sylweddol yn y cynigion, a gofynnodd yr Almaen am ostyngiad o oddeutu 10%. Gan mai Cronfeydd Strwythurol yr UE a'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) yw'r ddwy elfen fwyaf yn y gyllideb, gallai toriadau yn y pecyn ariannu cyffredinol effeithio ar yr wyth aelod-wladwriaeth hyn.

Safbwynt Llywodraeth Cymru

Fel y nodwyd uchod, eglurodd Llywodraeth Cymru ei safbwynt ar ddyfodol Cronfeydd Strwythurol yr UE yn ei hymateb i'r ymgynghoriad ar y Pumed Adroddiad Cydlyniant (Chwefror 2011)¹². Dywedodd fod angen rhoi adnoddau digonol a phriodol i'r polisi Cydlyniant i sicrhau bod amcanion Ewrop 2020 yn cael eu rhoi ar waith. Yn ogystal â thanlinellu cefnogaeth Llywodraeth Cymru i bolisi Cydlyniant ar lefel yr UE ar gyfer holl ranbarthau Ewrop, sy'n canolbwyntio ar y rhanbarthau tlotaf (gan gynnwys y rheini yn yr aelod-wladwriaethau cyfoethocaf), gan gynnig cymorth teg i ranbarthau wrth iddynt adael y rhaglen Cydgyfeirio.

Ymatebodd Llywodraeth Cymru yn ffurfiol hefyd i'r ddau adroddiad a ddeilliiodd o ymchwiliad y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol, gan gytuno â'r holl

¹⁰ ME Llywodraeth y DU ar y Pumed Adroddiad Cydlyniant

¹¹ ME Llywodraeth y DU ar y Fframwaith Ariannol Amflwydd

¹² Gweler gwefan **WEFO**

argymhellion.

Ar 22 Medi, bu'r Dirprwy Weinidog dros Raglenni Ariannu'r UE, Alun Davies, yn rhoi tystiolaeth i'r Pwyllgor Menter a Busnes yn amlinellu prif bryderon Cymru, ac yn esbonio hefyd sut y bydd yn gweithio drwy Gydgyngor y Gweinidogion (Ewrop) i ddylanwadu ar drafodaethau Llywodraeth y DU ym Mrwsel.

Mae'r Dirprwy Weinidog hefyd wedi cyhoeddi nifer o ddatganiadau ac mae wedi cyfeirio at Gronfeydd Strwythurol yr UE. Cafwyd y datganiad diweddaraf yn y Cyfarfod Llawn ar 4 Hydref, pan nododd ei fwriad i weithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid Cymru a'r Cynulliad i gyflwyno dadl gref ar ran Cymru yn ystod y trafodaethau'r flwyddyn nesaf.

Hynt y pecyn yn sefydliadau'r UE Institutions

Caiff yr adran hon ei diweddarw wrth i'r trafodaethau ym Mrwsel fynd rhagddynt ac wrth i safbwynt swyddogol sefydliadau'r UE ddod yn glir. At ddibenion y diweddariad hwn (1 Gorffennaf 2011) mae safbwyntiau amrywiol Senedd Ewrop etc ar yr Adolygiad o Gyllideb yr UE wedi'u cynnwys.

Senedd Ewrop:

Bydd dau Bwyllgor yn Senedd Ewrop yn arwain y trafodaethau ar ddyfodol Cronfeydd Strwythurol yr UE:

- **Y Pwyllgor Datblygu Gwledig (Cadeirydd ASE o Wlad Pwyl, yr Athro Danuta Hübner, cyn Gomisiynydd Datblygu Rhanbarthol yr UE): mae dau ASE o Gymru ar y Pwyllgor hwn, John Bufton ASE (UKIP) sy'n aelod llawn a'r dirprwy Derek Vaughan ASE (Llafur Cymru).**
- **Y Pwyllgor Cyflogaeth (ASE o Ffrainc, Pervenche Beres):** nid oes yr un ASE o Gymru ar y Pwyllgor hwn.

Mae Senedd Ewrop eisoes wedi enwebu'r Rapporteurs

arweiniol ar bob un o elfennau'r cynigion deddfwriaethol drafft (mae'r rheini sy'n berthnasol i Gymru wedi'u rhestru):

- **Rheoliad Darpariaethau Cyffredin** (Lambert van Nistelroij, ASE o'r Iseldiroedd) (Plaid y Bobl Ewropeaidd -EPP) a Constanze Krehl ASE o'r Almaen (Sosialwyr a Democratiaid)
- **Rheoliadau ERDF**: Jan Olbrycht, ASE o Wlad Pwyl (EPP,)
- **Rheoliadau ESF**: Elisabeth Morin-Chartier, ASE o Ffrainc (EPP)

Ar ôl i'r Pwyllgorau gytuno ar yr adroddiadau drafft (a'r newidiadau amrywiol i'r cynigion gwreiddiol), caiff y pecyn ei drafod yn y cyfarfod llawn cyn cynnal pleidlais arno. Nid yw'r amserlen ar gyfer ei fabwysiadu'n glir eto, ond mae'n bosibl y caiff ei fabwysiadu yn y Pwyllgor tua Mawrth - Mai 2012 a'i fabwysiadu yn y cyfarfod llawn tua Mehefin - Gorffennaf o bosibl. Os bydd ail neu drydydd darlleniad, yna mae'n bosibl na chaiff y pecyn ei fabwysiadu tan ganol 2013.

Cyngor y Gweinidogion:

Y Cyngor Materion Cyffredinol fydd yn arwain y trafodaethau, tra bo'r Cyngor Cyflogaeth yn canolbwyntio ar gynigion Cronfa Gymdeithasol Ewrop. Roedd y drafodaeth gychwynnol ar y cynigion drafft wedi'i threfnu ar gyfer 11 Hydref (yn y Cyngor Materion Cyffredinol).

Bydd gweithgorau'n ymgymryd â'r gwaith technegol a byddant yn ceisio dod i gytundeb ar yr elfennau hynny yn y cynigion nad ydynt yn ddadleuol. Y Gweinidogion fydd yn cytuno arnynt yn ffurfiol (yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau fydd yn arwain ar hyn)

Mae Llywyddiaeth yr UE, sydd yng ngofal Gwlad Pwyl, yn ceisio sicrhau cytundeb cyffredinol ar y trefniadau rheoli a rhaglennu cyn diwedd eu llywyddiaeth (hy 31 Rhagfyr 2012), i ganiatáu i'r Comisiwn baratoi'r Fframwaith Strategol Cyffredin (disgwylir y bydd y drafft ar gael i ymgynghori yn ei gylch ym mis Ionawr) ac i ddechrau trafod Cytundebau Partneriaeth a

Rhaglenni Gweithredol yn anffurfiol gyda'r aelod-wladwriaethau.

Eraill:

Pwyllgor y Rhanbarthau yw'r corff sy'n cynrychioli awdurdodau rhanbarthol a lleol ym Mrwsel. Caiff roi sylwadau ar y cynigion deddfwriaethol drafft ond nid oes gan y corff bwerau i newid y testunau (nac i'w rhwystro rhag cael eu mabwysiadu). Dyma hefyd yw sefyllfa'r Cyngor Economaidd a Chymdeithasol (ECSC), sef yr ail gorff ymgynghorol ym Mrwsel, sy'n cynrychioli buddiannau gwahanol sectorau (ee y sector busnes, y sector gwirfoddol).

Mae Pwyllgor y Rhanbarthau eisoes wedi penodi rapporteurs ar gyfer y cynigion:

- **Rheoliad Darpariaethau Cyffredin** : Catuscia Marini (Sosialwyr a Democratiaid), Llywydd Rhanbarth Umbria, yr Eidal
- **Rheoliad ERDF** : Dr Michael Schneider (EPP), Ysgrifennydd Materion Ewropeaidd Saxony-Anhalt, yr Almaen; rheoliad ERDF
- **Rheoliad ESF**: Konstantinos Simitsis (Sosialwyr a Democratiaid), Maer Dinas Kavala, Gwlad Groeg

Mae'r Cynghorydd Chris Holley, Arweinydd Dinas a Sir Abertawe, yn aelod o'r Pwyllgor Cydlyniant Tiriogaethol (sef Pwyllgor COTER), sef y pwyllgor sy'n arwain ar Gronfeydd Strwythurol yr UE yng Nghyngor y Gweinidogion.

Rhagor o wybodaeth

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â

Gregg Jones (Gregg.Jones@wales.gov.uk)

Pennaeth Swyddfa'r UE

Ffôn. 0032 2 226 6692

Ffôn symudol. 0044 7816 164455

Cyfeiriad:

Swyddfa'r UE Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Tŷ Cymru

6ed Llawr 11 Rond Point Schuman

Brwsel B-1040

Gwlad Belg

neu

Ben Stokes (Ben.Stokes@wales.gov.uk)

Y Gwasanaeth Ymchwil

Est. 8208